**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED NOS LUN IONAWR 17EG 2022**

**PRESENNOL**
Cyng. Arwel L. Jones (Cadeirydd), Cyng. John Owen, Cyng Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin, Cyng. Alun Morris, Cyng. Eifion Williams, Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod a dymunodd Blwyddyn Newydd dda i bawb.

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Anwen Jones, Cyng. Dylan Jones

**CADARNHAU'R COFNODION**
Cadarnhawyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 29ain o Dachwedd, 2021..

**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**
1) Angen ail-gysylltu gyda Mr Simon Richardson, Adran Rheoleiddio Cyngor Sir Conwy I gael diweddariad ar sefyllfa adeilad yr Hen Gapel Soar, Tan y Bryn, Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged.
2) Diolchwyd i Cyng. John Owen a Cyng Alun Morris am drefnu ac addurno y goeden Nadolig yn pentref Llanddoged.

**PRAESEPT**
Trafodwyd materion y praesept ar gyfer y gyllideb i'r flwyddyn 2022-23 a rhannwyd taflen gyda rhestr o'r gofynion . Pasiwyd a penderfynwyd aelodau y cyngor drwy godi eu dwylo i gymeradwyo y rhestr gofynion ond nodwyd bydd angen codi y praesept pum y cant ar gyfer 2022-23 oherwydd mi all cymhlethdodau godi yn dilyn etholiadau mis Mai elenni.
Bydd y clerc yn cysylltu gyda'r adran Cyllid ac Adnoddau Cyngor Bwrdeistref Conwy gyda chais am braesept o £6,500.00 am y flwyddyn ariannol 2022-23.

**CYNNAL A CHADW**
1) Angen 'Sweeper' i fyny allt Fron Francis, Llamddoged.
2) Brigau coed yn gwyro allan i'r ffordd (B5113 ) wrth Ffrith Ucha, Llanddoged.
3) Angen torri coed wrth fynediad i'r A470 (allt yr abbey) er mwyn i gerbydau cael gweld yn glir at gyfeiriad Llanrwst i ymuno ar ffordd fawr.
4) Angen trwsio wal y bont 'Pont y Garth, Maenan.
5) Pryder am nifer o ddamweiniau ar y ffordd A470 ar y tro wrth 'First Cottage' Maenan.

**UNRHYW FATER ARALL**

**Cerbydau Amaethyddol – Maes Parcio Gegin Wen**
Derbyniwyd cwyn fod dim lle i barcio ceir ym maes parcio Gegin Wen gan fod cerbydau amaethyddol (tractors a threlars) yn parcio ar draws y maes parcio.